Cytundeb gwaith rhwng Cafcass a Cafcass Cymru ar gyfer trosglwyddo achosion a datgelu gwybodaeth

Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 (Pennod II) yn nodi swyddogaethau Cafcass mewn perthynas ag achosion teuluol lle mae neu lle y gall fod amheuon ynghylch lles plant. Mae Deddf Plant 2004 (Rhan 4) yn nodi swyddogaethau cyfatebol Cafcass Cymru mewn perthynas ag achosion teuluol lle mae neu lle y gall fod amheuon ynghylch lles plant sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru. Mae Adran 36 o Ddeddf Plant 2004 yn sicrhau y gellir gwneud trefniadau rhwng Cafcass a Cafcass Cymru i gyflawni swyddogaethau ar ran ei gilydd.

Mae Cafcass a Cafcass Cymru yn ymrwymedig i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y plant rydym yn cydweithio â nhw. Felly, mae angen i bob achos gael ei drosglwyddo yn y ffordd fwyaf amserol posibl, gan osgoi unrhyw oedi cymaint â phosibl.

Trosglwyddo achosion cyfraith breifat
Gellir trosglwyddo achosion yn ddiogel rhwng Cafcass a Cafcass Cymru (ac i'r gwrthwyneb) heb orchymyn llys, os bydd preswylfa arferol y plentyn yn nodi bod hyn yn briodol. Yr asiantaeth drosglwyddo sy'n gyfrifol am hysbysu'r llys am y trosglwyddiad.

Dylai Cafcass Cymru baratoi adroddiadau am ymholiadau diogelu (SERs) / llythyrau diogelu mewn perthynas â phlant sy'n byw yng Nghymru, a dylai Cafcass wneud hynny mewn perthynas â phlant sy'n byw yn Lloegr, ni waeth ble mae'r llys sy'n delio â'r achos. Os bydd y naill asiantaeth neu'r llall yn nodi ei bod wedi cael cais mewn perthynas â phlentyn nad yw'n byw yn ei hardal, bydd yn anfon y cais, yr ymateb ac unrhyw orchmynion llys drwy e-bost i dîm diogelu Cafcass neu dîm gweinyddol canolog (CAT) Cafcass Cymru, fel y bo'n briodol, fel y gall y corff perthnasol ymgymryd â'r ymholiadau diogelu:

Cafcass – PrivateLawApplications@cafcass.gov.uk
Cafcass Cymru – CafcassCymruCAT@gov.wales

Mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd angen trosglwyddo achos yn dilyn Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf (FHDRA), er enghraifft os bydd y plentyn dan sylw yn symud o Gymru i Loegr (neu i'r gwrthwyneb) yn ystod yr achos. Mewn achos

o'r fath, os bydd angen caniatâd y llys i drosglwyddo'r achos o un sefydliad i'r llall, bydd angen ystyried newid lleoliad y llys hefyd. Unwaith y cytunir ar hyn, bydd yr asiantaeth drosglwyddo yn anfon y cais a'r ymateb, yr holl orchmynion llys, y llythyr diogelu/SER, datganiadau, deunyddiau a ddatgelwyd a dogfennau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y ffeil achos, yn ddiogel drwy e-bost i'r sefydliad arall.

Os bydd plentyn yn symud ar ôl i'r ymholiadau diogelu ddechrau, yr asiantaeth honno fydd yn gyfrifol am gwblhau'r ymholiadau diogelu. Dim ond ar ôl i'r FHDRA ddigwydd yr ystyrir trosglwyddo'r achos, a dim ond os bydd y Llys wedi gofyn am gyfraniad pellach gan Cafcass neu Cafcass Cymru.

Yr asiantaeth drosglwyddo fydd yn gyfrifol am bob achos a drosglwyddir yn uniongyrchol rhwng Cafcass a Cafcass Cymru (ac i'r gwrthwyneb) hyd nes y caiff gadarnhad gan yr asiantaeth sy'n derbyn ei bod wedi derbyn y trosglwyddiad.

Bydd angen gorchymyn llys cyn trosglwyddo adran 7 neu achos r16.4 os yw'r llys eisoes wedi penodi neu gyfeirio at un o ymarferwyr Cafcass / Cafcass Cymru.

Materion yn ymwneud â phreswylfa arferol
Ni chaiff achosion lle mae amheuaeth neu anghydfod ynghylch preswylfa arferol plentyn lle nad yw'r llys wedi gwneud penderfyniad ynghylch y mater eto, eu trosglwyddo heb drafodaeth ymlaen llaw rhwng y Rheolwr Gwasanaeth / Pennaeth Ymarfer yn Cafcass a'r Rheolwr Ymarfer / Pennaeth Gweithrediadau yn Cafcass Cymru.

Yn ôl y prawf a ddefnyddir gan y llysoedd i bennu preswylfa arferol, mae'n rhaid bod elfen o *"ddiben sefydlog"* byrdymor neu hirdymor. Gall y ffactorau y bydd angen i Cafcass a Cafcass Cymru eu hystyried gynnwys: y cyfnod o amser y mae'r plentyn wedi byw ym mhob ardal; pa mor ddiweddar y symudodd; a yw'r plentyn yn mynychu'r ysgol ac wedi'i gofrestru â gwasanaethau iechyd; y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer y ddwy asiantaeth sy'n delio â'r achos.

Os na ellir dod i gytundeb ynglŷn â throsglwyddo'r achos, yna dylai'r corff a enwir yn y gorchymyn llys wneud cais am gyfarwyddiadau gan y llys o ran a ddylai Cafcass neu Cafcass Cymru gyflawni ei swyddogaethau, a bydd yn parhau i fod yn gyfrifol am yr achos hyd nes y daw'r llys i benderfyniad.

Trosglwyddo achosion cyfraith gyhoeddus
Dim ond yn dilyn trafodaethau rhwng y Rheolwr Gwasanaeth / Pennaeth Ymarfer yn Cafcass a'r Rheolwr Ymarfer / Pennaeth Gweithrediadau yn Cafcass Cymru y caiff achosion cyfraith gyhoeddus eu trosglwyddo. Os oes gwarcheidwad a enwir eisoes wedi cael ei benodi, bydd angen gorchymyn llys i'w ryddhau cyn y gellir penodi person gwahanol; yr asiantaeth drosglwyddo sy'n gyfrifol am gael gorchymyn os bydd angen.

Os pennir ar ddechrau achos cyfraith gyhoeddus bod problem o ran y breswylfa arferol sy'n effeithio ar b'un a ddylai Cafcass neu Cafcass Cymru gyflawni ei swyddogaethau, bydd y Rheolwr Gwasanaeth / Rheolwr Ymarfer perthnasol yn cysylltu â'r unigolyn cyfatebol cyn gynted â phosibl i drafod y posibilrwydd y gall y llys ofyn i warcheidwad plant o'i asiantaeth fod yn bresennol. Bydd y rheolwr lleol yn penodi gwarcheidwad plant a all ofyn i gyfreithiwr gynrychioli'r plentyn yn y

gwrandawiad rheoli achos cyntaf ac yn tynnu sylw'r llys at y mater hwn. Mewn achosion lle mae awdurdod lleol yng Nghymru wedi cychwyn achos mewn perthynas â phlentyn sy'n preswylio yn Lloegr, bydd fel arfer yn briodol i Cafcass benodi gwarcheidwad plant. Yn yr un modd, mewn achosion lle y bydd awdurdod lleol yn Lloegr yn cychwyn achos mewn perthynas â phlentyn sy'n byw yng Nghymru, bydd fel arfer yn briodol i Cafcass Cymru benodi gwarcheidwad.

Mewn sefyllfaoedd gwahanol i'r rhai uchod, bydd angen cynnal trafodaeth rhwng y ddau sefydliad am y ffordd briodol ymlaen.

Cyflawni swyddogaethau ar ran corff arall
Gall Cafcass a Cafcass Cymru ofyn i'r llall gyflawni swyddogaethau ar ei ran. Lle y bo hynny'n cynrychioli'r defnydd gorau o adnoddau, cytunwyd y bydd pob asiantaeth yn cyflawni swyddogaethau cyfyngedig ar gais y llall megis adroddiadau ar amodau cartrefi a thystio cydsyniad mewn ceisiadau mabwysiadu gan lys-rieni a cheisiadau am orchmynion rhianta. Rheolwr Gwasanaeth / Rheolwr Ymarfer yr ardal weithredol berthnasol yw'r pwynt cyswllt ar gyfer ceisiadau o'r fath.

Datgelu a throsglwyddo gwybodaeth
Mae Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010 yn caniatáu i Cafcass a Cafcass Cymru rannu gwybodaeth mewn perthynas ag achosion sydd wedi'u cau neu achosion teuluol ar wahân. Wrth rannu a storio gwybodaeth, caiff y ddwy asiantaeth eu hystyried yn rheolwyr data ac mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â darpariaethau Ddeddf Diogelu Data (DPA) 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Er mwyn cydymffurfio â'r rhain, rhaid i'r wybodaeth a ddatgelir fod yn berthnasol ac yn angenrheidiol. Rhaid i geisiadau datgelu gwybodaeth nodi'r rheswm pam y mae angen y wybodaeth. Caiff ffeiliau achos agored ac sydd wedi'u cau, gan gynnwys adroddiadau llysoedd, eu golygu cyn iddynt gael eu trosglwyddo er mwyn dileu manylion unrhyw drydydd partïon nad ydynt yn rhan o'r achos cyfredol. Pan fydd adroddiadau wedi'u rhannu rhwng y ddwy asiantaeth, cyfrifoldeb yr asiantaeth sy'n eu derbyn fydd dileu unrhyw wybodaeth (gan gynnwys gwybodaeth am drydydd partïon) yr ystyrir ei bod yn amherthnasol ac yn ddiangen at y diben gofynnol, cyn i'r adroddiad gael ei anfon ymlaen neu ei ddatgelu ar gyfer achos llys. Bydd angen caniatâd y llys er mwyn datgelu adroddiadau o un gyfres o achosion mewn achosion newydd. Ni chaiff ffeiliau achosion cyfan eu trosglwyddo rhwng Cafcass a Cafcass Cymru (neu i'r gwrthwyneb) oni bai bod hynny'n angenrheidiol i fodloni diben gofynnol y cais.

Rhoddwyd ar waith 15 Awst 2017
Diwygiwyd (cyfeiriadau e-bost Cafcass) 23 Awst 2018
Diwygiwyd (cyfeiriadau DPA/GDPR) 12 Rhagfyr 2019
Sandie Hayes, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cafcass
Matthew Pinnell, Dirprwy Brif Weithredwr, Cafcass Cymru
Dyddiad adolygu – Rhagfyr 2020

Manylion cyswllt Cafcass

PrivateLawApplications@cafcass.gov.uk
PublicLawIntake@cafcass.gov.uk

Cafcass National Business Centre
University of Warwick Science Park
Milburn Hill Road
Coventry
CV4 7JJ

Canolfan Alwadau: 0300 456 4000

Gweler gwefan Cafcass am restr lawn o swyddfeydd.

Manylion cyswllt Cafcass Cymru:

CafcassCymruCAT@gov.wales
CafcassCymru@gov.wales

Cafcass Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Gweler gwefan Cafcass Cymru am restr lawn o swyddfeydd a manylion cyswllt.